3.26

# CAN GWYNFANUS,

ER COF AM Y

# DDAMWAIN ARSWYDUS

A gymerodd le ar foreu dydd Sadwrn, y 26fed o Ragfyr, 1863, yn Maesteg, trwy i

# 15 O LOWYR

GOLLI EU BYWYDAU.

---

A ganlyn yw enwau ac oed y dyoddefwyr :—William Isaac, 40 ; John Bevan, 53 ; David Williams, 44 ; David Williams, 14 ; David John, 31 ; David Edwards, 29 ; David Rees, Panwr, 38 ; William Elias, 27 ; William Davies, 23 ; David Jones, 21 ; Morgan Thomas, (Derwyddyn,) 22 ; Benjamin Rees, 17 ; Dennis Mahony, 14 ; a William Gower, 11.

---

A GYFANSODDWYD GAN

J. W. JONES, (Ieuan Nantyglo.)

"Gwyliwn a gweddiwn, canys yn yr awr ni thybiwn y daw Mab y dyn."

Beth yw'r cwynfan mawr a'r galar
  Gan gyfeillion hawddgar iawn,
Trwy'r ardaloedd yma beunudd,
  O foreuddydd hyd brydnawn,
Angau ingol creulon elyn,
  Sydd yn peri dychryn mawr,
Yn ddisymwth mae yn tori
  Ein cyfeillion cu i lawr.

O bwll y Morfa daeth mor sydyn
  Gan achosi galar trist,
I berth'nasau a chyfeillion,
  Y mae lluoedd yno'n dyst ;

Llawer gwraig a mam gariadlon,
  Trwy Aberavon a'r Taibach,
O waith y ddyrnod drom a gawsant,
  Byth ni theimlant galon iach.

A chyn i'r gryddiau yno sychu,
  Trwm mynegu hyn i chwi,
Daeth ar dro i waith y Llwyni
  Mae'n anhawdd traethu fel y bu;
Dynion gwrol wrth eu gorchwyl,
  Yn gorfod marw yn eu nerth,
A chefnu ar y byd a'i bethau,
  A gadael pob peth sydd o werth.

Mamau yno geir yn wylo,
  Gwragedd hefyd yr un wedd,
Wrth gofio'u gwyr a'u plant anwylgu
  A ro'd i bydru yn y bedd,
Cofio am eu melus droion
  Sy'n tori eu calonau hwy,
Ond gobeithio eu bod heddyw
  Yn moli'r Oen am farwol glwy.

Ar derfyniad yr hen flwyddyn,
  Y bu'r ddamwain hynod hon;
Llawer un sydd yn galaru,
  Llawer un yn brudd eu bron,
Nid angofiant am fis Rhagfyr,
  Am y flwyddyn daunaw cant
A thair a thrigain gyda hyny,
  Pan gymerwyd rhai'n i bant.

Yn ddisymwth 'nol yr hanes,
  Y *Damp* a daniodd arnynt hwy
Dynion gwrol yn eu iechyd,
  Yn gorfod dyoddef marwol glwy,
Gwyr yn 'madael 'nawr a'u gwragedd,
  A'r plant bychain yr un wedd;
A meibion llon o waith yr angau
  Yn cael eu cludo lawr i'r bedd.

Pan yn codi o'u gwelyau,
Yn y boreu a myn'd i ffwrdd
At eu gorchwyl fel arferol,
Tro rhyfeddol ddaeth i'w cwrdd ;
Pan wrth eu gwaith ar d'rawiad amrant.
Dychmygant gwelant angau 'n dod,
Rhaid oedd ufyddhau i'r alwad,
Gyda'r genad is y rhod.

Mewn peryglon mae y glowyr
Nos a dydd ; gwirionedd yw,
Ond er hyn yn anystyriol,
Y mae llawer un yn byw,
Ychydig iawn oedd rha'in yn feddwl,
Pan yn dechreu gorchwyl gwaith,
Buasai angau 'n dod mor sydyn
I roddi terfyn ar eu taith.

Dylem wylied a gweddio
Nis gwyddom ddim pa ddydd, pa awr,
Y daw angau glas a'i gleddyf
Yn ei rwysg i'n tori lawr ;
O na allem bawb o honom
Fod yn barod cyn daw'r dydd,
A chyn rhoddi ein cyrff i orphwys
Obry yn isel yn y pridd.

Ar ol cynal y trengoliad,
Eu cyrff i'r ddaear raid oedd myn'd,
Llawer un oedd yn galaru,
Pan yn claddu eu anwyl ffrynd ;
Plant yn wylo am eu tadau,
Wrth eu beddau ar y pryd,
A mamau hefyd am eu meibion
Fu gariadlon yn y byd.

Gwragedd hoff a mamau mwynion,
Mewn amynedd ceisiwn fod,
Bawb yn barod cyn daw'r alwad,
Yna cenwch beraidd glod ;
Ymbaratown cyn delo angau,

Yn ei rwysg i'n tori lawr,
Ac ymdrechwn am gael myned,
At y llu sydd uwch y llawr.

Hen ac ieuanc hoff ystyriwch,
A gwybyddwch y dawr dydd,
Y bydd raid i chwithau fyned,
I gydorwedd yn y pridd ;
A chyn del y diwrnod hynod,
I'n cyfarfod is y nen
Ymdrechwn bawb adnabod Iesu,
Hyn f'o'n gweiddi byth, Amen.

*J. T Jones, Argraffydd, &c , Commmercial-place, Aberdar.*